

14 Tachwedd 2022

YMATEB I ADRODDIAD INTERIM - Adolygiad Llywodraeth Cymru o addysg gychwynnol athrawon yn y sectorau addysg a hyfforddiant ôl-orfodol

1. Rydym yn croesawu'r gwaith sydd wedi ei gyflawni a'r ymdrechion a wnaed i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd yn ystod adolygiad Estyn. Mae'r cynigion yn dangos ymagwedd dipyn yn fwy strwythuredig a chydlynol tuag at addysg gychwynnol athrawon yn y sectorau addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, ac ymddengys eu bod yn darparu fframwaith gadarn a rhesymol.
2. Nodir y rhesymau dros y diwygiadau yn glir ac effeithiol, gan gadarnhau fod angen cydweithio'n agosach ac alinio systemau. Rhoddir cydnabyddiaeth glir i bwysigrwydd cysondeb, ond ar yr un pryd rhoddir parch ac ystyriaeth ddyladwy hefyd i'r anghenion a'r gofynion gwahanol ac amrywiol.
3. Byddai'r diwygiadau yn arwain at gynyddu statws addysg gychwynnol athrawon yn y sectorau addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ac yn sicrhau mwy o gydraddoldeb â hyfforddiant cychwynnol ysgolion a datblygiad dechrau gyrfao o ran y modd y mae'r hyfforddiant yn cael ei gyflwyno ac o ran y parch a roddir iddo ac rydym yn llwyr gefnogol i hyn.
4. Rydym yn croesawu'n fawr fod elfen graidd wedi ei chynnwys sy'n canolbwyntio ar ddatblygu addysgeg ddwyieithog. Mae angen ystyried yr elfen hon yn ofalus ac yn drylwyr, er mwyn sicrhau bod pawb yn cael profiad gwerthfawr a fydd yn arwain at ddefnydd helaethach o'r Gymraeg wrth ddarparu cyrsiau ledled Cymru.
5. Rydym yn pryderu bod cyn lleied o hyfforddeion yn astudio ac yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a byddem yn croesawu unrhyw fentrau i hyrwyddo a datblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd yn bodoli ar hyn o bryd. Dylid annog gwaith pellach gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg a'r sawl sy'n darparu drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd (sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach) a byddem hefyd yn gwerthfawrogi pe bai mwy o adnoddau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, er mwyn hwyluso'r broses o ddarparu cyrsiau drwy gyfrwng yr iaith.
6. Dylai pob hyfforddai sy'n astudio ac yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg gael mynediad at diwtoriaid a mentoriaid sy'n siarad Cymraeg a dylent allu

mynd i leoliadau a fydd yn eu galluogi i ymarfer drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Yn yr un modd ag y mae 'profiad addysgu, cymorth a her o ansawdd da a ddarperir gan fentor galwedigaethol neu fentor pwnc yn allweddol i gynorthwyo hyfforddeion i ddatblygu sgiliau pwnc/addysgu galwedigaethol cryf', mae mentoriaid sy'n addysgu'n dda ac yn dangos esiamplau da o addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer sicrhau addysg cyfrwng Gymraeg o'r radd flaenaf.

7. Dylid sefydlu rhwydweithiau o ymarferwyr cyfrwng Gymraeg, er mwyn rhannu profiadau ac adnoddau – dylid gwneud y defnydd llawnaf posibl o dechnoleg fodern er mwyn sicrhau'r cymorth addas. Wrth gasglu a chofnodi data, byddai'n fuddiol cofnodi nifer yr hyfforddeion sy'n hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â nodi beth yw eu harbenigedd. Byddai hyn yn darparu cronfa ddata werthfawr ar gyfer darparwyr cyfrwng Gymraeg a byddai'n hwylyso'r broses o greu rhwydwaith o arbenigwyr pwnc.
8. Rydym yn cydnabod y gallai fod manteision posibl o ddatblygu'r modd y defnyddir y safonau proffesiynol, rydym hefyd yn cytuno â'r rhybudd a fynegir a'r perygl posibl sydd ynghlwm wrth y syniad hwn, sef y gallai arwain at fod yn ymarfer biwrocraidd beichus gyda fawr ddim gwerth ymarferol nac effaith ar yr addysgu. Dylid anelu bob amser at sicrhau'r safon addysgu uchaf, tra rhoddir y parch mwyaf hefyd i les athrawon.
9. Rydym yn croesawu'r esboniadau clir ynghylch cynnwys a strwythur y cyrsiau amrywiol. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi'r cyfle i drosi cymwysterau cyfatebol – Statws Athro Cymwysedig a Statws Ymarferydd Cymwysedig. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau fod y ddau gymhwyster yn gyfartal, teimlwn y dylai hyfforddiant ar gyfer y ddau lwybr arwain at gymwysterau tebyg, hynny yw SAC (Statws Athro Cymwysedig) a SYC (Statws Ymarferydd Cymwysedig), a bod hynny wedyn yn cael ei ddilyn gan gyfnod ymsefydlu (gyda hyfforddeion yn cael eu galw'n Athrawon Newydd Gymhwyso, Ymarferwyr Newydd Gymhwyso) a fyddai'n arwain at statws athro/ymarferydd llawn.
10. Byddai'r gallu i drosi cymwysterau o fudd i sefydliadau cyfrwng Gymraeg sy'n cynnig (neu sy'n dymuno cynnig) ystod eang o gyrsiau galwedigaethol ond sy'n ei chael yn anodd staffio cyrsiau o'r fath. Byddai hefyd yn cyfrannu at ddatrys rhai o'r heriau y mae sefyllfaoedd o'r fath yn eu cynnig.

Iona A. Davies

(Swyddog Polisi)

